## Cofnodion Cyfarfod y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Abertawe - Grŵp Partneriaeth

**Committee Room 3A - Neuadd y Ddinas, Abertawe**

**Dydd Mawrth, 12 Mawrth 2019 am 12.30 pm**

**Yn Bresennol**:

David Bebb, Cwmni Ailsefydlu Cymunedol Cymru
Mark Brace, Swyddfa Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu
June Burtonshaw, Cyngor Abertawe
Mark Child, Cyngor Abertawe (Cofnod 23-28)
Karen Cornish, Llywodraeth Cymru
Jan Curtice, Gwasanaeth Tân ac Achub Canolbarth a Gorllewin Cymru
Andrew Davies, BIPABM (Cofnod 22-28)
Hilary Dover, Grŵp Cynllunio'r BGC
Hywel Evans, Fforwm Busnes Rhanbarthol
Martyn Evans, Cyfoeth Naturiol Cymru
Peter Greenslade, Gwasanaeth Tân ac Achub Canolbarth a Gorllewin Cymru
Siân Harrop-Griffiths, BIPABM
Adam Hill, Cyngor Abertawe
Mark Hurry, Adran Gwaith a Phensiynau
Anna Jones, Prifysgol Cymru y Drindod Dewi Sant
Martin Jones, Heddlu De Cymru
Erika Kirchner, Cyngor Abertawe
Amanda Lewis, Y Gwasanaeth Prawf Cenedlaethol
Clive Lloyd, Cyngor Abertawe (Cofnod 25-28)
Joanna Maal, Heddlu De Cymru
Philip McDonnell, Fforwm yr Amgylchedd Abertawe
Mike Phillips, Grŵp Ymchwil y BGC
Jennifer Raynor, Cyngor Abertawe
Mary Sherwood, Cyngor Abertawe

**Ymddiheuriadau am absenoldeb**
Amanda Carr, Cyngor Gwasanaethau Gwirfoddol Abertawe
Dr Jane Davidson, Prifysgol Cymru y Drindod Dewi Sant
Sandra Husbands, BIPABM
Andrea Lewis, Cyngor Abertawe
Phil Roberts, Cyngor Abertawe
Gail Smith, Gwasanaeth Tân ac Achub Canolbarth a Gorllewin Cymru
Rob Stewart, Cyngor Abertawe

**Hefyd yn bresennol**
Leanne Ahern, Cyngor Abertawe
Allison Lowe, Cyngor Abertawe
Suzy Richards, Cyngor Abertawe

**18 Ethol Cadeirydd Dros Dro.**

**Penderfynwyd** ethol Adam Hill fel Cadeirydd Dros Dro.

**Adam Hill (Cadeirydd Dros Dro) fu'n llywyddu.**

**19 Datgeliadau o fuddiannau personol a rhagfarnol.**

Ni ddatganwyd unrhyw gysylltiadau.

**20 Cofnodion.**

**Cytunwyd** y dylid cymeradwyo a llofnodi cofnodion cyfarfod Grŵp Partneriaeth Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Abertawe a gynhaliwyd ar 13 Tachwedd 2018 fel cofnod cywir.

**21 Cyfarfod ar y cyd y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus. (ar lafar)**

Amlinellodd y Prif Uwch-arolygydd Martin Jones fanylion adroddiad ar y cyd gan y Grŵp Digwyddiadau Tyngedfennol ar Gamddefnyddio Sylweddau a sefydlwyd gan Fyrddau Gwasanaethau Cyhoeddus Castell-nedd Port Talbot a Dinas a Sir Abertawe. Nododd yr adroddiad y camau gweithredu i fynd i'r afael â marwolaethau sy'n gysylltiedig â chyffuriau yn y rhanbarth ac ymdrin â County Lines, sy’n bla.

Gwnaethpwyd cryn dipyn o waith gan gynnwys newid gwasanaethau, rhaglenni allgymorth, mwy o glinigau a rhestrau aros. Byddai'r grŵp yn cyfarfod eto ymhen chwe mis i ystyried y strwythur a ddatblygwyd o ganlyniad i'r adroddiad, ynghyd â chyfleoedd ar gyfer cryfhau'r hyn a gyflawnwyd eisoes.

Wedi hynny, dywedodd y bydd trefniadau llywodraethu'r Bwrdd Cynllunio Ardal hefyd yn cael eu hystyried er mwyn symleiddio'r broses adrodd.

Gall cydweithwyr ddymuno cyfrannu at yr holiadur sydd ar gael mewn perthynas â'r adolygiad o wasanaethau camddefnyddio sylweddau ym Mae'r Gorllewin a gafodd ei gomisiynu gan Fwrdd Cynllunio Ardal PABM – byddai Siân Harrop-Griffiths yn cylchredeg y manylion.

**Cytunwyd**:

1) Cylchredeg adroddiad y Grŵp Digwyddiadau Tyngedfennol i Grŵp Partneriaeth y BGC;
2) Cylchredeg y ddolen i'r holiadur ar wasanaethau camddefnyddio sylweddau ym Mae'r Gorllewin i Grŵp Partneriaeth y BGC.

**Bu Andrew Davies (Cadeirydd) yn llywyddu**

**22 Cwestiynau gan y Cyhoedd.**

Ni chafwyd unrhyw gwestiynau gan y cyhoedd.

## 23 Adolygiad llywodraethu bwrdd gwasanaethau cyhoeddus Abertawe.

Rhoddodd y Cadeirydd y diweddaraf i'r grŵp am y sefyllfa bresennol mewn perthynas â'r adolygiad llywodraethu parhaus. Cychwynnwyd ar yr adolygiad er mwyn symleiddio'r broses a gwella strwythur y BGC i'w wneud yn fwy effeithiol drwy ganolbwyntio ar yr amcanion lles drwy gael system dryloyw, agored, atebol a chynhwysol.

Cyfarfu'r Grŵp Llywio Llywodraethu deirgwaith a datblygodd gylch gorchwyl drafft a Memorandwm/Datganiad Dealltwriaeth drafft.

Dilynwyd hyn gan drafodaeth gyffredinol lle codwyd y pwyntiau canlynol:

- Mae un corff BGC yn unig yng Nghastell-nedd Port Talbot sy'n cynnwys tua 20 o aelodau, wedi'i gadeirio gan Arweinydd yr awdurdod lleol ar y cyd â'r 4 partner statudol, y trydydd sector a chynrychiolaeth gan y sector tai. Nid oedd gan Gastell-nedd Port Talbot grwpiau craidd, cynllunio nac ymchwil;
- Roedd angen mesur i ddatblygu'r gwaith i'w wneud yn fwy effeithiol;
- Yng Nghastell-nedd Port Talbot, darparodd pob arweinydd amcan adroddiad am y grŵp partneriaeth trosgynnol. Roedd hyn yn caniatáu monitro cynnydd a chyflawnwyd canlyniadau. Gallai BGC Abertawe ddysgu o’r broses hon;
- Roedd Castell-nedd Port Talbot hefyd wrthi'n cynnal adolygiad o lywodraethu.
- Cwblhawyd adolygiad llywodraethu'r Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol. Gan fod peth o'r gwaith yn cyd-fynd ac yn gorgyffwrdd, y gobaith oedd y byddai'n osgoi dyblygu;
- Roedd angen dod â mentrau megis y comisiwn tlodi, hawliau dynol, dinasoedd iach ynghyd a'u symleiddio.
- Mae'n rhaid i'r gofrestr risgiau ganolbwyntio ar gyflwyno'r amcanion, gan barhau i gydnabod risgiau posib eraill;
- Dylid sefydlu grwpiau tasg a gorffen gyda nifer bach o gynrychiolwyr allweddol a fyddai'n adrodd yn ôl i'r grŵp partneriaeth;
- Roedd Sir Gâr a Cheredigion wedi mabwysiadu ymagwedd sy'n canolbwyntio ar dasgau sydd wedi bod yn llwyddiannus iawn. Roeddent hefyd yn gweithio ar sail ranbarthol;
- Roedd angen ymagwedd a fyddai'n nodi bylchau yn y broses o gyflwyno'r Cynllun Lles;
- Mae angen i ni herio'r ffordd rydym yn gweithio. Dylid gwreiddio'r 5 ffordd o weithio ym mhob un o'n sefydliadau;
- Yr awdurdod lleol oedd yn gyfrifol am yr holl waith o weinyddu’r BGC. A oedd cyfle i bartneriaid eraill ddarparu cymorth, ac nid cymorth ariannol yn unig, megis Adnoddau Dynol neu Bersonél?
- Roedd angen grŵp ymchwil o hyd er mwyn cynnal yr asesiadau lles;
- Byddai proses ar gyfer adrodd yn ôl am gynlluniau a sefydlir megis cynigion ar gyfer trawsnewid, Canolfan Iechyd Da Abertawe etc hefyd yn fuddiol.

**Cytunwyd**:

1) Nodi'r diweddariad;

2) Y cynhelir trafodaeth bellach yng nghyfarfod nesaf y Grŵp Craidd ar 12 Ebrill 2019.

## 24 Olrhain risg.

Darparodd Swyddog Polisi Cynaladwyedd Cyngor Abertawe ddiweddariad ynghylch Olrhain Risgiau.

Cafwyd trafodaeth gyffredinol ynghylch a oedd sefydliadau unigol wedi ymgymryd ag ymarfer mapio o'u hamcanion i lywio'r adroddiad blynyddol er mwyn nodi unrhyw fylchau.

Yn ychwanegol, holwyd a ddylid cynnal archwiliad i ddarganfod pa wahaniaeth a wnaed gan y Cynllun Lles ers iddo gael ei fabwysiadu.

**Cytunwyd** y dylid cofnodi'r diweddariad.

## 25 Dinas Hawliau Dynol. (ar lafar)

Adroddodd y Cadeirydd fod Dr Simon Hoffman, Athro Cyswllt, Prifysgol Abertawe, wedi ymgymryd â'r gwaith ar ran Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Abertawe, yn enwedig sefydlu Grŵp Llywio a Chynllun Cyflwyno.

Roedd datganiad gweledigaeth dyheadol wrthi'n cael ei ystyried a byddai cynllun gweithredu'n cael ei lunio i gysylltu â'r Cynllun Lles. Byddai rhai cynlluniau ar gyfer sefydliadau unigol a byddai rhai eraill yn gamau gweithredu a rennir.

**Cytunwyd**

1) Nodi'r diweddariad.
2) Cyflwyno diweddariad/adroddiad mewn cyfarfod o'r Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus yn y dyfodol.

## 26 Mesur cynnydd ein cenedl (ymgymghoriad dros e-bost BETA).

Adroddodd Aelod y Cabinet dros Ofal, Iechyd a Heneiddio'n Dda am yr ymgynghoriad ar gynigion i osod cerrig milltir cenedlaethol i Gymru mewn perthynas â Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015.

Dywedodd y byddai'n ymateb yn bersonol i'r ymgynghoriad a byddai'n rhannu'i farn â'r bwrdd.

**Nodwyd** yr ymgynghoriad.

## 27 Asedau Llywodraeth Cymru - Gweithgor Asedau Cenedlaethol.

Nodwyd cynnwys y llythyr oddi wrth Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyllid. Awgrymwyd y dylai'r eitem gael ei thrafod yn fanylach mewn cyfarfod yn y dyfodol gan yr oedd cyfleoedd pellach y gellid eu cynnwys ynghylch yr amcanion lles, megis cynlluniau teithio llesol.

Yn ychwanegol, roedd disgwyl i bapur ar Ganolfan Iechyd Da Abertawe gael ei gyflwyno gerbron BIPABM. Awgrymwyd y dylid trafod y cynnwys/canlyniadau mewn cyfarfod Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus yn y dyfodol.

**Cytunwyd** y dylid**:**

1) Trafod Bwrdd Ystadau Cymru mewn cyfarfod yn y dyfodol;
2) Trafod diweddariad ynghylch Canolfan Iechyd Da Abertawe mewn cyfarfod o'r BGC yn y dyfodol.

## 28 Adroddiad Carchar EM.

Nodwyd yr adroddiad.

Daeth y cyfarfod I ben am 1.49 pm

**Cadeirydd**